

Adennill paradwys? Cynladwyedd yn y Blynnyddoedd Cynnar

Yr Ardd

Rhan 1

Rhif Modiwl: ECEY6005C

Rhif myfyriwr: 21114233

Gwobr John Muir

A photograph of a garden scene. In the foreground, there's a green lawn with a potted plant on the left and a stone path on the right. A large green speech bubble is overlaid on the left side of the image, containing the word 'Darganfod' in white text. The background shows a hedge and a cloudy sky.


Darganfod

- Mae'r ardal laswelltog hon, sydd tu ôl i fy nghartref teulu, yn hafan wirioneddol i bob math o fywyd. Mae'r ardal yma yn ardal ddiogel i mi lle rwyf wedi treulio llawer o fy mhientyndod yn chwarae, chwilota creaduriaid bach, chwarae cuddio a llawer mwy! Rwyf nawr eisoes yn defnyddio'r ardd fel ardal i ymlacio pan fydd y tywydd yn braf ac er mwyn cael heddwch o fwrlwm bywyd prysur. Gwelir amrywiaeth eang o blanhigion, o flodau gwyllt i flodau wedi'i thrin, i gyd yn ychwanegu at fosaig lliwgar yr ardd. Wrth wyllo yn ofalus, gwelaf beillwyr gan gynnwys ieir bach yr haf a gwenyn yn perfformio dawns gymhleth wrth iddynt neidio o flodyn i flodyn. Wrth eistedd yn yr ardd mae nifer o adar hefyd dangos eu presenoldeb trwy hela ymhlith y gwyrddni am fwyd a dwr. Wrth ddysgu am gynhesu byd-eang a'r pwysigrwydd o warchod ein byd, mae gennyf fwy o barch at y byd naturiol a'i harddwch.

Darganfod yr ardal




Rwyf wedi cynnwys rhai lluniau o'r arfordir sydd yn agos iawn i'm lleoliad, sef yr ardd. Yn aml iawn dwi'n treulio amser yng Nghei Newydd yn bwyta hufen ia ac yn gwylio'r dolffiniaid sydd yn y môr. Rwyf hefyd yn hoffi nofio a padylfyrddio yn yr haf!



- Dyma lun o leoliad fy ngardd ar y map. Mae'r ardd wedi lleoli yng Ngheredigion ger yr arfordir. Rwy'n hynod o lwcus i fedru cael y golygfeydd cefn gwlad allan o fy ngardd ond hefyd Bae Ceredigion sydd tua 10 munud o'r lleoliad a ddewiswyd.

Elfennau gwahanol o'r ardd





Yr ardd yn ystod machlud haul

**Gwaeadau
gwahanol a
ddarganfuwyd
yn yr ardd**



Archwilio'r ardal

Wrth dreulio amser yn yr ardd ymchwiliais ymhellach i ddarganfod yr holl bethau oedd yno, gan geisio deall sut mae pob elfen yn effeithio ar les cyffredinol byd natur. Gwelir yn y lluniau gwenyn yn hedfan o un blodyn i'r llall. Trwy hyn, sylweddolais pa mor bwysig yw hi i gael amrywiaeth o blanhigion sy'n blodeuo ar wahanol adegau fel bod y gwenyn yn cael cyflenwad cyson o fwyd trwy gydol y flwyddyn. Roedd y dadansoddiad hwn yn pwysleisio'r rôl hanfodol mae gwenyn yn chwarae wrth warchod lles a chynnyrch yr ardd, gan danlinellu arwyddocâd sefydlu cynefin sy'n gyfeillgar i'r creaduriaid hanfodol hyn.



Oeddech
chi'n
gwybod?

Gall un wenynen ymweld ag hyd at 5,000
o flodau mewn un diwrnod, gan eu
gwneud yn beillwyr hynod effeithiol! O
ganlyniad, maent yn hanfodol ar gyfer
peillio amrywiaeth eang o gnydau a
phlanhigion gwylt, sy'n cynnal
ecosystemau naturiol ac
amaethyddiaeth!



Oherwydd eu bod yn peillio
cnydau, mae gwenyn yn
hanfodol i amaethyddiaeth gan
ei fod yn cynyddu cynnyrch ac
ansawdd bwyd.



LLUNIAU ADAR A GWELWYD YN YR ARDD

Mae'r ardd yn fyw gyda synau nifer o adar ac mae eu caneuon melys yn croesawu'r diwrnod wrth iddi wawrio. Yn aml iawn dwi'n edrych tu allan y ffenest a gweld adar yn chwilota am fwyd ac yn cael dwr allan o'r bath dwr. Rwy'n adnabod sawl rhywogaeth wahanol, yn amrywio o'r robin goch, pioden a'r titw tomos las. Rwyf wedi creu amgylchedd cyfeillgar sy'n diwallu eu hanghenion trwy osod bwyd adar a bath dwr. Mae hyn yn fy ngalluogi i weld eu harferion bob dydd yn agos. Mae fy edmygedd o'r adar hyn wedi cynyddu o ganlyniad i'r cynefin hwn, sydd hefyd wedi amlygu pwysigrwydd cadw a chynnal eu cynefinoedd naturiol. Mae yna bïoden yn dod i yfed dŵr a chwilota am fwyd ac fel person ofergoelus dwi'n ei saliwio bob tro.



Cliciwch ar yr eicon i glywed y synau
mae'r mathau gwahanol o adar yn eu
gwneud.

Dyma luniau o adar sydd yn dod i'r
ardd a'r synau maent yn eu
gwneud. Wrth dreulio amser allan
yn yr ardd rwy'n ceisio dysgu
enwau'r adar ac adnabod sŵn eu
trydar. Roedden yn methu tynnu
llun rhai o'r adar oherwydd eu bod
yn ymwybodol o'm mhresenoldeb
felly roedd hyn yn anodd gwneud!



Robin Goch



Titw Tomos Las



Drudwy



Aderyn y to



Casgen Ddwr

Edrychais yn ofalus ar swyddogaeth fy nghasgen ddŵr yn yr ardd. Mae dŵr glaw o'r to yn cael ei gasglu gan y gasgen ddŵr, gan roi cyflenwad dibynadwy o ddŵr i'm phlanhigion. Rydym yn arbed arian ac yn gostwng y bil dwr trwy ddefnyddio'r dŵr glaw a gasglwyd yn hytrach na dŵr tap. Gan nad yw'n cynnwys unrhyw un o'r llygryddion sydd weithiau'n bresennol mewn dŵr tap, mae'r dŵr hyn yn hynod o dda i'r planhigion. Pwysleisiodd yr archwiliad hwn gwerth cadwraeth dwr a dangosodd sut y gellir gwella cynaliadwyedd ac iechyd yr ardd yn fawr gan offeryn syml fel casgen ddŵr.



Gwarchod

- Wrth dreulio amser yn yr ardd wrth astudio Gwobr John Muir , gwerthfawrogais yr holl bethau sydd yna i helpu ein byd natur a'r arferion cynaliadwy rydyn ni fel teulu yn gwneud. Fy mhrif nodau yw cefnogi dulliau garddio cynaliadwy a sefydlu lloches i'r cynefin lleol. Er mwyn hybu bioamrywiaeth ac i barhau darparu cynefinoedd i bryfed peillio sy'n tynnu gloynnod byw a gwenyn, rwy'n tyfu amrywiaeth eang o rywogaethau brodorol. Rwyf hefyd wedi gwneud gwesty i greaduriaid bach. Rwy'n gwneud dŵr siwgr fel ffynhonnell fwyd dewis olaf, yn enwedig pan fo neithdar yn brin. Rwy'n darparu ffynhonnell ynni ychwanegol i wenyn i'w helpu i fyw a datblygu trwy gyfuno un rhan o siwgr gronynnog gwyn ag un rhan o ddŵr.

Compostio

Elfen allweddol o strategaethau cynaliadwyedd o'r ardd yw compostio. Rwyf wedi ychwanegu bin compostio i gornel yr ardd. Mae hyn yn troi gwastraff organig yn bridd cyfoethog, ffrwythlon sy'n hybu datblygiad planhigion wrth leihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Rwy'n casglu dail, toriadau porfa ynghyd a sbwriel cegin fel croen llysiau a phlisgyn wyau i greu compost maethlon.



Dŵr siwgr ar
gyfer y
gwenyn



Gwesty Chwilod

Rwyf wedi creu gwesty ar gyfer chwilod bach trwy ddefnyddio rac gwin oedd ddim yn cael ei ddefnyddio rhagor. Dyma'r lluniau cyn ac ar ol. Casglais dail, brigau a rhisgl coed oedd ar y porfa yn yr ardd. Rwyf hefyd wedi drilio tyllau mewn i ddarn trwchus o bren gan obeithio fydd creaduriaid bach yn gwneud lloches yna!



Cyn


Ar ol



Rhannu

- Rwy'n bwriadu rhannu fy ngwobr John Muir gyda fy nhwtoriaid yn y Brifysgol gyda'r gobaith byddant yn cael eu hysbrydoli i wneud unrhyw ran o'r llyfr lloffion yma- boed yn plannu blodyn i ddenu peillwyr neu adeiladu gwesty i greaduriaid bach.
- Rwyf hefyd wedi gwneud gweithgareddau byd natur gyda phlant y blynyddoedd cynnar rwy'n gweithio gyda gan gynnwys plannu blodau, adnabod adar a dysgu am bwysigrwydd byd natur gellir darganfod yn eu gerddi neu iard yr ysgol. Rwyf am annog plant ac oedolion i werthfawrogi natur a gweithredu arferion mwy ecogyfeillgar yn eu hamgylcheddau eu hunain trwy adrodd hanes fy ngardd.

'30 Days Wild' –
gweithgareddau sydd
yn cael eu gosod gan
The Wildlife Trust er
mwyn hybu
dealltwriaeth plant am
byd natur



Ein gardd yn yr ysgol


Moron a thatws



Cenin a letys




Bresych



- Mae tyfu llysiau yn esiampl ardderchog o gynaliadwyedd. Drwy gynhyrchu bwyd ffres, maethlon, eu hunain gall plant ddysgu bod llysiau a ffrwythau yn tyfu o hadau. Maent hefyd yn dysgu bod angen dŵr a gwres arnynt i dyfu.

Dyma esiampl o waith mae
ein lleoliad blynyddoedd
cynnar wedi gwneud er
mwyn codi
ymwybyddiaeth o sbwriel
a pha finiau maent yn
perthyn i.



Yr ardd

Wrth gwario amser yn yr ardd
Gwelwyd nifer o bethau lliwgar, hardd

Ar ddiwrnod heulog o haf
Mi welais rhosys coch yn tyfu'n braf!

Robin goch, pioden a'r titw tomos las
Sydd yn hedfan yn eu plas

Teimlaf rhisgl y goeden hyn
A gwerthfawrogi taw hyn sydd yn ein hamddiffyn

Blasaf ffrwythau a llysiau sydd yn tyfu'n y pridd
Y rhain sydd yn gwneud ni'n iach a chryf

Mor hyfryd yw gweld byd natur
A'r creaduriaid yn brysur ar eu antur

